

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth  
Questions to the Minister for Economic Development and Transport
- 4 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

**Q2 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on the use of section 106 (Town and Country Planning Act 1990) funding to aid community regeneration? OAQ0398(SJR) *Transferred for written answer by the Minister for Environment, Planning and Countryside.*

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** When considering a development proposal, local planning authorities can seek the provision of, or a contribution towards, community benefits through a section 106 agreement. Any such arrangement must be directly related to the proposed development, as set out in Welsh Office circular 13/97, 'Planning Obligations', which is currently being reviewed.

*Atebwyd pob cwestiwn arall yn y Cyfarfod Llawn.  
All other questions were answered in Plenary.*

**C2 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cyllid adran 106 (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i gynorthwyo gydag adfywio cymunedau? OAQ0398(SJR) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Pan fyddant yn ystyried cynnig datblygu, gall awdurdodau cynllunio lleol geisio cael budd i'r gymuned neu gyfraniad, drwy gytundeb adran 106. Rhaid i unrhyw drefniant o'r fath fod â pherthynas uniongyrchol â'r datblygiad arfaethedig, fel y nodir yng nghylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig, 'Rhwymedigaethau Cynllunio', sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

#### Caffael Contractau Cynnal Ffyrdd Procurement of Road Maintenance Contracts

**Q8 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on the procurement of road maintenance contracts? OAQ0424(EDT)

**C8 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gaffael contractau cynnal ffyrdd? OAQ0424(EDT)

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** The Welsh Assembly Government is in the process of making the transition from procuring trunk road maintenance using eight trunk road agents to three. The mid Wales and north Wales trunk road agents have been established; the south Wales agent will commence operation in April 2006.

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o drawsnewid i gael dau asiant i gynnal cefnffyrdd yn hytrach nag wyth. Sefydlwyd asiantaethau cefnffyrdd y canolbarth a'r gogledd; bydd asiant y de yn dechrau ar ei waith yn Ebrill 2006.

### **Economi'r Canolbarth a'r Gorllewin The Economy of Mid and West Wales**

**Q9 Helen Mary Jones:** Will the Minister make a statement on the economy of Mid and West Wales? OAQ0457(EDT)

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am economi Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0457(EDT)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government and its agencies are helping to create economic prosperity throughout Wales, through the broad range of its mainstream programmes and activities. The low unemployment rate in Mid and West Wales is testament to the success of our policies.

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau yn helpu i greu ffyniant economaidd drwy Gymru gyfan drwy eu hamrediad eang o raglenni a gweithgareddau prif ffrwd. Mae'r raddfa isel o ddiweithdra yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn dystiolaeth o lwyddiant ein polisiau.

### **Statws Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008 Liverpool's European Capital of Culture Status 2008**

**Q10 Karen Sinclair:** What action is the Minister taking to ensure that north Wales benefits from Liverpool's European Capital of Culture status during 2008? OAQ0476(EDT)

**C10 Karen Sinclair:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y gogledd yn elwa o statws Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008? OAQ0476(EDT)

**Andrew Davies:** The Wales Tourist Board has been working with north Wales economic forum partners in anticipation of this opportunity. A business plan detailing what north Wales can offer Liverpool, European Capital of Culture 2008, has been sanctioned.

**Andrew Davies:** Bu Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio â phartneriaid fforwm economaidd gogledd Cymru yn barod ar gyfer y cyfle hwn. Cymeradwywyd cynllun busnes sy'n manylu ar yr hyn y gall y gogledd ei gynnig i Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

### **Swyddi a Gollwyd yn Ddiweddar Recent Job Losses**

**C11 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y swyddi a gollwyd yn ddiweddar yng Ngorllewin De Cymru?

**Q11 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on recent job losses in South Wales West? OAQ0454(EDT)

OAQ0454(EDT)

**Andrew Davies:** Gross job flows are not recorded as part of any regular statistical exercise. However there were 219,000 people in employment in South Wales West in 2004. That is up 6,000 on the previous year and 9,000 up (or 4.2 per cent) on 2001.

**Andrew Davies:** Ni chofnodir llif gwaith gros fel rhan o unrhyw arfer ystadegol rheolaidd. Fodd bynnag, yr oedd 219,000 o bobl mewn gwaith yn y de-orllewin yn 2004. Mae hynny 6,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a 9,000 yn fwy (neu 4.2 y cant) na 2001.

### **Swyddi a Gollwyd yn y Gogledd Job Losses in North Wales**

**Q12 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on job losses in north Wales? OAQ0463(EDT)

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddi a gollwyd yn y gogledd? OAQ0463(EDT)

**Andrew Davies:** Gross job flows are not recorded as part of any regular statistical exercise. However there were 294,000 people in employment in north Wales in 2004. That is up 3,000 on the previous year and 19,000 up (or 6.8 per cent) on 2001.

**Andrew Davies:** Ni chofnodir llif gwaith gros fel rhan o unrhyw arfer ystadegol rheolaidd. Fodd bynnag, yr oedd 294,000 o bobl mewn gwaith yn y gogledd yn 2004. Mae hyn 3,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a 19,000 yn fwy (neu 6.8 y cant) na 2001.

### **Rhwydwaith y Cefnffyrdd The Trunk Road Network**

**Q13 Peter Law:** When will the Minister next review the trunk road network? OAQ0471(EDT)

**C13 Peter Law:** Pa bryd fydd y Gweinidog yn adolygu'r rhwydwaith cefnffyrdd nesaf? OAQ0471(EDT)

**Andrew Davies:** The trunk road network was reviewed in 2002. It set out where sections of road are being brought in to the trunk road network with others being de-trunked, becoming the responsibility of the local authority. Changes will be implemented over a five-year period. No further review is proposed until this time elapses.

**Andrew Davies:** Adolygwyd y rhwydwaith cefnffyrdd yn 2002. Yr oedd yn pennu pa rannau o ffyrdd a oedd i'w cynnwys yn y rhwydwaith cefnffyrdd, gydag eraill yn cael eu hisraddio, gan ddod o dan gyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Daw newidiadau i rym dros gyfnod o bum mlynedd. Ni fwriedir cynnal adolygiad pellach nes daw'r cyfnod hwn i ben.

### **Mesur Trafnidiaeth (Cymru) The Transport (Wales) Bill**

**Q14 Eleanor Burnham:** What is the Assembly Government doing in anticipation of the Transport (Wales) Bill being made law? OAQ0412(EDT)

**C14 Eleanor Burnham:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i baratoi ar gyfer Mesur Trafnidiaeth (Cymru) pan ddaw'n Ddeddf? OAQ0412(EDT)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government is working to take forward the £8 billion, 15-year transport programme that I announced last December, which will deliver integrated transport throughout

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i symud ymlaen gyda'r rhaglen drafnidiaeth 15 mlynedd, £8 biliwn a gyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf, a fydd yn darparu trafnidiaeth

Wales.

integredig drwy Gymru gyfan.

**Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru  
The WDA and The WTB**

**Q15 Michael German:** Will the Minister make a statement on the merger process of the WDA and the WTB? OAQ0440(EDT)

**C15 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am broses uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru? OAQ0440(EDT)

**Andrew Davies:** Good progress is being made on the merger process.

**Andrew Davies:** Mae'r broses o uno yn gwneud cynnydd da.

**Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business**

**Polisi Cydraddoldeb rhwng y Ddau Ryw  
Gender Equality Policies**

**Q11 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's gender equality policies? OAQ0116(BM)

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi cydraddoldeb rhwng y ddau ryw Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0116(BM)

**The Business Minister (Jane Hutt):** We have demonstrated our commitment to gender equality through activities such as the Close the Pay Gap campaign. The third phase of the campaign will primarily focus on the public sector. This will be underpinned by the forthcoming gender duty, which will require WAG to produce a gender equality scheme.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Yr ydym wedi dangos ein hymroddiad i gydraddoldeb rhwng y ddau ryw drwy weithgareddau fel yr ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog. Bydd trydydd rhan yr ymgyrch yn canolbwyntio'n gyntaf ar y sector cyhoeddus. Ategir hyn gan y ddyletswydd rhwng y ddau ryw sydd ar ddod, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu cynllun cydraddoldeb rhwng y ddau ryw.

**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth ag Anabledd  
Disability Awareness Training**

**Q12 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on disability awareness training for front-line staff in public services? OAQ0109(BM)

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant ymwybyddiaeth ag anabledd i staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0109(BM)

**Jane Hutt:** It is vital that all staff who work in front-line services have the right training to ensure that they can deliver services effectively for disabled people. Legislation will be brought forward to place a duty on all public sector authorities to promote disability equality.

**Jane Hutt:** Mae'n hanfodol bod yr holl staff sy'n gweithio i'r gwasanaethau rheng-flaen yn cael yr hyfforddiant cywir i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer pobl anabl. Daw deddfwriaeth i rym a fydd yn ei gwneud yn ddyletswydd i holl awdurdodau sector cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl.

### **Cyfrifoldeb Trawsbynciol dros Blant Cross-cutting Responsibility for Children**

**Q13 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on her cross-cutting responsibility for children in Wales? OAQ0102(BM)

**Jane Hutt:** I was very pleased to launch last month, with the First Minister, the national service framework for children, young people and maternity services. That sets standards of service across health and social care, together with related aspects of other services, such as education.

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chyfrifoldeb trawsbynciol dros blant yng Nghymru? OAQ0102(BM)

**Jane Hutt:** Yr oedd yn bleser gennyf lansio, y mis diwethaf gyda'r Prif Weinidog, y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth. Mae hwn yn pennu safon gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd ag agweddau perthynol o wasanaethau eraill fel addysg.

### **Tlodi Plant Child Poverty**

**Q14 Peter Black:** What action is the Minister taking to co-ordinate Welsh Assembly Government policies to tackle child poverty? OAQ0104(BM)

**Jane Hutt:** The Minister for Social Justice and Regeneration is developing an implementation plan to eradicate child poverty by 2020. The children and young people's policy co-ordination group will be involved in its development. It will apply across ministerial portfolios, maximising the work already being undertaken to alleviate child poverty and draw all strands together.

**C14 Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gydlynu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant? OAQ0104(BM)

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn datblygu cynllun cyflawni i gael gwared â thlodi plant erbyn 2020. Bydd y grŵp cydlynu polisi plant a phobl ifanc yn ymwneud â'i ddatblygu. Bydd yn berthnasol ar draws portffolio Gweinidogion, gan hyrwyddo'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i leihau tlodi plant ac i dynnu pawb ynghyd.

### **Iaith Arwyddion Prydain British Sign Language**

**Q15 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on British Sign Language? OAQ0107(BM)

**Jane Hutt:** The Welsh Assembly Government recognises British Sign Language as a language in its own right regularly used by a significant number of people for participation in everyday life. I was pleased recently to have the opportunity to encourage people to learn BSL by launching Learn to Sign Week in Wales.

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Iaith Arwyddion Prydain? OAQ0107(BM)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod Iaith Arwyddion Prydain fel iaith ynddi ei hun, y'i defnyddir yn rheolaidd gan nifer sylweddol o bobl o ddydd i ddydd. Yr oedd yn bleser gennyf, yn ddiweddar, gael y cyfle i annog pobl i ddsygu Iaith Arwyddion Prydain drwy lansio Wythnos Dysgu Arwyddo yng Nghymru.